# Egwyddorion Gweithio i'r Urdd

Urdd Gobaith Cymru

# Egwyddorion Cyffredinol
# Gweithio i'r Urdd

**I gydfynd gyda gwerthoedd y mudiad, mae gofyn i staff feddu ar gyfres o egwyddorion sylfaenol sy'n adlewyrchu rhinweddau pwysig o fod yn gyflogai i'r Urdd.**

**Credwn bod yr hyn sydd wedi ei nodi isod yn berthnasol i bawb ym mhob swydd yn y mudiad,  gyda disgwyliadau ehangach posibl o fewn swyddi penodol.**

## Dinbynadwyedd

Person gonest, y gellir ymddiried ynddo i gyflawni tasgau disgwyliedig ac i safon. Mae hyn yn cynnwys cadw at ymrwymiadau, cymryd cyfrifoldeb am eich gwaith ac ymateb yn briodol.

## Cadw Amser

Cyrraedd yn brydlon ar gyfer gwaith, cyfarfodydd a gweithgareddau, gan ddangos parch tuag at amser eraill. Mae hefyd yn berthnasol yng nghyd-destun cwblhau tasgau o fewn terfynau amser a rhoi gwybod ymlaen llaw os oes oedi.

## Cyfathrebu

Mynegi gwybodaeth yn glir, yn gwrtais ac yn briodol i'r gynulleidfa, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig. Mae hefyd yn bwysig derbyn gwybodaeth gan wrando'n weithredol a sicrhau bod pawb yn deall.

## Dilyn Cyfarwyddiadau

Gallu deall a gweithredu ar gyfarwyddiadau yn gywir, gan ofyn cwestiynau pan fo angen eglurhad.

## Gweithio gyda eraill

Cydweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr, dangos cefnogaeth ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Mae'n bwysig dangos parch at wahanol safbwyntiau a chyfraniadau.

# Egwyddorion Cyffredinol Gweithio i'r Urdd

## Datrys problemau

Adnabod problemau wrth iddynt godi a gweithio'n rhagweithiol i ddod o hyd i atebion ymarferol. Mae hyn yn cynnwys meddwl yn greadigol, defnyddio barn resymegol a gofyn am gymorth pan fo angen.

## Agwedd cadarnhaol

Dangos brwdfrydedd, hyblygrwydd a pharodrwydd i ddysgu a chyfrannu at waith. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol, mae'n bwysig cadw agwedd adeiladol a bod yn agored i ddysgu a gwella.

## Parchu

Trin pawb â pharch, urddas a thegwch, gan werthfawrogi amrywiaeth o gefndiroedd, profiadau a gallu ym mhob cyd-destun. Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel.

Disgwylir i bob aelod o staff yr Urdd berchnogi'r agwedd hyn o ddydd i ddydd yn eu gwaith a thu hwnt.

## Caredigrwydd

Dangos empathi, ystyriaeth a chefnogaeth tuag at eraill yn eich ymddygiad o ddydd i ddydd. Gall hyn gynnwys cynnig help, bod yn amyneddgar ac ymateb mewn ffordd ofalgar i anghenion pobl eraill.

## Defnydd o'r Gymraeg

Defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn hyderus yn y gweithle. Mae hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg yn weithgar a chefnogi eraill i'w defnyddio.

# Egwyddorion Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Urdd

**Yn ychwanegol i'r egwyddorion cyffredinol, mae'n hanfodol i ni fel mudiad sicrhau bod ein rheolwyr yn arwain drwy esiampl gyda hyder ac angerdd.**

**Credwn bod yr hyn sydd wedi ei nodi isod yn berthnasol i pob unigolyn, gyda disgwyliadau ehangach a gofynion mwy manwl o fewn swyddi penodol.**

**Mae'n arferol i'r egwyddorion hyn gael eu arddangos mewn unigolion mewn swyddi Graddfa 6+, ond gall fod gofyn i swyddi eraill feddu ar y rhinweddaru pwysig hyn.**

## Gweledigaeth a Chyfeiriad

Y gallu i osod cyfeiriad clir ar gyfer y tîm neu'r prosiect, drwy ddatblygu gweledigaeth ysbrydoledig a sicrhau dealltwriaeth ehangach beth yw cyfraniad ac effaith y gwaith neu'r pobl.

## Cymhellu Eraill

Y gallu i ysbrydoli ac annog pobl i berfformio ar eu gorau, gan greu ymrwymiad ac egni cadarnhaol gan gysylltu gwaith unigol â phwrpas mwy.

## Arwain Trafodaethau

Y gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol sy'n sicrhau cyfraniad gan bawb, yn cadw ffocws ar y pwnc, ac yn arwain at benderfyniadau neu gamau clir.

## Dylanwadu

Y gallu i berswadio ac ennill cefnogaeth gan eraill drwy resymeg, perthnasoedd cryf, a dealltwriaeth o anghenion a phryderon rhanddeiliaid.

# Egwyddorion Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Urdd

## Gwneud penderfyniadau

Y gallu i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol ar sail gwybodaeth berthnasol, gan bwyso a mesur risgiau, a chymryd cyfrifoldeb am y canlyniadau.

## Atebolrwydd

Ymrwymiad i gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau, gweithredoedd a chanlyniadau, gan sicrhau tryloywder a dysgu o lwyddiannau a methiannau.

## Dirprwyo / Delegeiddio

Y gallu i ddosbarthu tasgau a chyfrifoldebau'n briodol, gan ymddiried mewn eraill ac yn eu datblygu, tra'n cadw goruchwyliaeth briodol dros ganlyniadau.

## Deallusrwydd Emosiynnol

Y gallu i ddeall a rheoli eich emosiynau eich hun a rhai eraill, gan ddangos empathi, adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, a rheoli sefyllfaoedd heriol yn effeithiol.

## Gwydnwch

Gallu addasu ac adfer yn gyflym o heriau, pwysau neu newid, gan gynnal ffocws a pherfformiad dros amser.

## Meddwl beirniadol

Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth yn wrthrychol, herio rhagdybiaethau, ac asesu tystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a synhwyrol.